Llais Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Negeseuon a godwyd gan blant a phobl ifanc Gwynedd yn ystod 2009/10

Nodai Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd (Hawliau Ni) fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i 'gael eu trin â pharch; i leisio'u barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'r byd o'u cwmpas ac i'r farn honno gael ei chlywed.' Dyma grynodeb o'r prif negeseuon mae plant a phobl ifanc wedi bod yn eu cyfleu am wasanaethau Gwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Un o fwriadau'r adroddiad yma yw dathlu'r gwaith da sy'n digwydd o fewn maes cyfranogi plant a phobl ifanc yng Ngwynedd. Gobeithio y bydd y negeseuon sy'n codi o gymorth i wasanaethau priodol weithredu er mwyn gwella'r gwasanaethau er lles eu defnyddwyr, sef plant a phobl ifanc.

Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan, cafwyd ymateb gan yr asiantaethau canlynol:

- SNAPCymru
- NYAS
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gweithredu Dros Blant
- CIP Pwllheli
- Clywed
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr [Adran canmol, awgrymu a chwyno]
- Tîm Cyfranogi a Hawliau, Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc,
- Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,

Mae'r negeseuon wedi eu didoli yn ôl Hawliau Ni. O dan bob hawl unigol nodir y negeseuon sydd wedi codi gan blant a phobl ifanc, unrhyw enghraifft o arfer dda ac unrhyw weithred sydd wedi deillio cyn belled fel canlyniad i'r neges.

Defnyddiwyd amrywiol ddulliau yn ystod y flwyddyn i gasglu barn plant a phobl ifanc; cynhaliwyd sesiynau trafod, theatr fforwm, Bwth Barn (sef ffilmio pobl ifanc yn siarad), holiaduron a llawer mwy.

Diolch i bawb am eu cyfraniad- i'r plant, pobl ifanc a staff. Gobeithio y bydd y crynodeb yma yn ddefnyddiol i chi yn eich gwaith dyddiol. Crynodeb yn unig yw hwn, ac felly nid yw'n cynnwys barn holl blant a phobl ifanc Gwynedd.

Cychwyn Ni
Addysg Ni
Iechyd Ni
Amser Ni
Llais Ni
Diogelwch Ni
Dyfodol Ni

Am unrhyw wybodaeth bellach neu sylwadau cysylltwch gyda ni:
HawliauNi@gwynedd.gov.uk
01286 679648

Gwawr Davies
Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau
Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Medi 2010

Addysg Ni

Yr hawl i ddysgu a datblygu sgiliau

Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i gael mynediad llawn at amrediad eang o gyfleoedd a phrofiadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol o safon er mwyn eu galluogi i ennill a datblygu sgiliau ac i gyflawni eu potensial dysgu yn llawn.

1.1 Cyfleoedd a Chefnogaeth Dysgu

- *"Dim pawb sydd yn academaidd ac felly eisiau rhagor o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau eraill"*
- Nifer o bobl ifanc yn teimlo nad oes cefnogaeth iddynt o fewn byd addysg, yn enwedig y rhai dros 19 a phobl ifanc bregus (oedd eisiau cefnogaeth gyda darllen, ysgrifennu a mathemateg yn arbennig.)
- Rhai pobl ifanc yn teimlo nad ydynt wedi derbyn cyngor gyrfa yn yr ysgolion oedd o gymorth iddynt i'r dyfodol, rhieni oedd yn rhoi'r cyngor gorau!

1.2 Negeseuon Disgyblion Ysgolion Uwchradd

Arfer Dda- GCI

Pobl ifanc o dan Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn mwynhau ystod y gweithgareddau sydd ar gael a'r dull anfygythiol o weithio.

Cafwyd y negeseuon canlynol gan ddisgyblion ysgolion uwchradd am eu hysgolion:

- Disgyblion yn anhapus gyda'r dewis o fwyd yn y ffreutur, nad oes digon o ddewis iach ac yn teimlo ei fod yn ddrud.
- Nododd rhai ysgolion fod trafnidiaeth yn gostus i gyrraedd yr ysgol, ac nad oedd opsiynau amgen o deithio (dim llwybr cerdded na beicio yno) Codwyd pryder ynghylch diffyg gwregys diogelwch ar fysiau, gyrwyr ddim yn siarad Cymraeg a'r CCTV arnynt.
- Rhai ysgolion yn anhapus gyda chyflwr adeilad yr ysgol, yn nodi pethau fel glendid (yn enwedig toiledau- dim papur toiled a dŵr i olchi dwylo), addasrwydd a diffyg adnoddau ar gael fel y prif broblemau.
- Hoffai disgyblion weld mwy o weithgareddau allgyrsiol yn cael eu trefnu y tu allan i oriau dysgu arferol.

Codwyd nifer o faterion eraill yn ogystal gan gynnwys y pwysau mae'r Cwricwlwm yn gosod ar bobl ifanc. Nodwyd pryder ynghylch yr anghydraddoldeb sydd rhwng ymddygiad staff a disgyblion ynghylch defnydd o ffonau symudol, iaith a gwisg ysgol.

Gweithrediad

- Adran Addysg yn llunio templed cylch gorchwyl i Gynghorau Ysgol er mwyn eu cryfhau yn yr ysgolion, yn hybu cyswllt ffurfiol rhwng y Cyngor Ysgol a'r Llywodraethwyr a sicrhau dylanwad ar y Cynllun Datblygu Ysgolion.
- Mae ymateb wedi ei anfon i ddisgyblion ysgolion uwchradd i'r negeseuon yn 1.2.
- Gweithredu dros blant yn gweithio i godi ymwybyddiaeth athrawon o sefyllfa gofalwyr ifanc ac yn cynnig mwy o gefnogaeth i'r plant o fewn yr ysgol

Gwawr Davies
Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau
Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Medi 2010

Iechyd Ni

Yr hawl i fod yn iach

Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i fyw bywyd iach ac i fwynhau iechyd corfforol a lles emosiynol da.

2.1 Bwlio a Phroblemau Emosiynol

- Pobl ifanc bregus wedi nodi yr hoffent fynychu cyrsiau magu hyder neu reoli tymer- rhai gwasanaethau yn eu gwrthod ond ddim yn siŵr beth arall sydd ar gael.
- Nodwyd yr angen i godi ymwybyddiaeth o anghenion pobl ifanc bregus i staff sydd yn gweithio ar draws asiantaethau iechyd meddwl- ee anghenion gofalwyr ifanc.
- Bwlio yn fater dwys iawn i blant a phobl ifanc Gwynedd ac yn teimlo eu bod angen mwy o gefnogaeth i ddelio gydag a stopio bwlio rhag digwydd.

2.2 Gwybodaeth a Chyngor: Iechyd

- Ysmygu a chyffuriau yn broblem i bobl ifanc ac maent eisiau cefnogaeth drwy fwy o wybodaeth ar yr effeithiau a sut i stopio. Disgyblion cynradd wedi nodi yr hoffent fwy o wybodaeth am alcohol a chyffuriau a sut i ddelio gyda rhieni yn ysmygu.

Arfer Dda- SNAP Cymru

SNAP Cymru yn casglu bas data o wybodaeth sy'n cael ei geisio gan bobl ifanc. Fe fydd unrhyw fylchau sy'n cael eu hadnabod yn cael ei godi gyda'r gwasanaeth priodol.

- Pobl ifanc eisiau gweld mwy o Iechyd Rhyw yn yr ysgolion uwchradd.
- Pobl ifanc yn fodlon gyda gwasanaeth nyrs' ysgol ond yn teimlo dylai'r lleoliadau fod yn fwy cyfrinachol, maent yn hapusach i drafod materion mwy sensitif oddi ar dir yr ysgol (lleoliadau megis sesiwn 'drop-in' yng nghlwb ieuenctid CIP, Pwllheli.)

2.3 Bwyta'n iach

Pobl Ifanc wedi nodi eu bod eisiau bwyta'n iach ond fod bwyd iach yn gostus a'i bod hi'n anodd bwyta'n iach adref os nad yw'r rhieni yn gwneud hefyd.

Gweithrediad

- CIP (Cynllun Ieuenctid Pwllheli) yn cynnal sesiynau bwyta'n iach i ateb anghenion y bobl ifanc.
- Rhai asiantaethau yn ceisio gwella cyfathrebu er mwyn cynnig gwell gwasanaeth i blant a phobl ifanc gyda problemau iechyd meddwl.

Gwawr Davies
Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau
Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Medi 2010



Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i gael amser i ymlacio ac i fwynhau drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol, creadigol, diwylliannol, cymdeithasol a chymunedol.

3.1 Rhwystrau mynediad

Teimlai pobl ifanc mae'r rhwystrau iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ydy:

- Prisiau drud
- Ardaloedd gwledig gyda llai o weithgareddau (i gynnwys pobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol)
- Diffyg pethau hamdden i'w gwneud amser cinio ac egwyl mewn Ysgolion
- Pobl ifanc yn teimlo fod diffyg pethau i neud o fewn y gymuned iddynt
- Pobl ifanc bregus gyda llai o fynediad i weithgareddau a datblygu sgiliau newydd

3.2 Negeseuon cadarnhaol

- Gwelodd Clywed nifer fawr o wasanaethau da yn cael ei gynnig mewn adeiladau anaddas e.e. Gwasanaeth Iechyd Rhywiol Bangor, Gwallgofiaid, Clybiau ieuenctid heb olau digonol tu allan.

Arfer Dda- Gwasanaethau Cymdeithasol

- Diwrnod dathlu'r teulu (a drefnwyd gan Wasanaethau Arbenigol Plant) yn llwyddiant mawr, nid yn unig i'r plant/pobl ifanc ond i'r teulu gyfan

- Plant oed cynradd yn Ne'r Sir wedi nodi eu bod yn fodlon iawn gyda'r dewis o weithgareddau sydd ganddyn eu gwneud o fewn eu cymunedau.
- Esiamplau da o wasanaethau celfyddydol sydd ar gael ond mewn ardaloedd cyfyngedig fel Tŷ Siamas, Oriel Plas Glyn y Weddw, Y Galeri a Theatr Harlech.

Gweithrediad

- Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio gwella cyfleodd pobl ifanc bregus i fynychu gwasanaethau prif lif er mwyn datblygu sgiliau.
- CIP yn edrych i gynnig mwy o gyfleoedd gwyliau i'r pobl ifanc.

Gwawr Davies
Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau
Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Medi 2010



Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i gael eu trin â pharch; i leisio'u barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'r byd o'u cwmpas ac i'r farn honno gael ei chlywed, ac i dderbyn gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn datblygu'n ddinasyddion llawn a gweithgar.

4.1 Materion cyfranogi o fewn Addysg

- Rhai pobl ifanc sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol yn teimlo nad yw neb yn gwrando arnynt yn yr ysgol.
- Nifer o blant a'u teuluoedd wedi nodi nad oeddent yn ymwybodol o wasanaeth Eiriolaeth na beth yw eu hawliau wrth wneud penderfyniadau addysgiadol.
- Mae ysgolion Pendalar a Hafod Lon wedi gweld llwyddiant wrth annog cyfranogiad gan ddisgyblion ac anghenion dysgu dwys iawn.
- Plant ysgolion cynradd wedi gofyn i gael dysgu sut i barchu ein gilydd ac i fod yn cynnal sesiwn ar fwlio

Arfer Dda- Ysgolion

Gwelwyd esiamplau da o gynnwys plant Ysgol Gynradd mewn prosesau ymgynghori a chyfranogi fel yn Ysgol Bron y Foel, Ysgol Morfa Nefyn ac Ysgol Bro Lleu.

4.2 Materion cyffredinol

- Ffurflenni ymgynghori'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y drefn adolygu statudol yn anaddas ar gyfer pob grŵp oed ac felly nifer o bobl ifanc angen cymorth i'w llenwi.
- Nododd nifer helaeth o'r plant a phobl ifanc sy'n cael cymorth gan eiriolwr ei fod yn amlach na pheidio yn sicrhau fod eraill yn cymryd eu sylwadau neu gais o ddifrif- gan fod oedolyn yn eiriol eu rhan.

Gweithrediad

- Grŵp Strategol Tlodi Plant yn arwain ar gwaith trafnidiaeth o fewn Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.
- SNAP yn casglu bas data o anghenion gwybodaeth pobl ifanc ac yno yn cysylltu gyda'r priodol i rannu'r neges

Gwawr Davies
Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau
Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Medi 2010

Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i fyw mewn cartrefi addas ac i gael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, troseddau, damweiniau, trais a bwlio.

5.1 Trafnidiaeth

- Fel yn 2008/09, mae pobl ifanc wedi datgan fod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhy ddrud iddynt allu ei defnyddio.
- Nodwyd pryder yn ogystal am y cynllun i godi £5 ar gludiant pobl ifanc i fynychu dosbarthiadau 6ed dosbarth neu gyrsiau yng Ngholeg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai.

5.2 Ailgylchu

- Nifer o ysgolion uwchradd eisiau ailgylchu, ond yn nodi ei fod yn rhy gostus- y disgyblion yn pryderu am hyn.
- Disgyblion ysgolion yn pryderu nad oes digon o finiau yn yr ysgolion a'u bod yn gorlifo.
- Yn ysgolion cynradd nodwyd fod Cynhesu byd eang a llygredd yn faterion pwysig i'r disgyblion, a hoffent wneud mwy o waith arno.

Gweithrediad

- Cynghorau ysgol wedi derbyn cyswllt o fewn y cyngor er mwyn trafod opsiynau ailgylchu'r ysgol.
- Grŵp Strategol Tlodi Plant yn arwain ar gwaith trafnidiaeth o fewn Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.



Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i gael mynediad at wasanaethau, cyfleoedd a chyfleusterau er mwyn eu galluogi i sicrhau dyfodol da mewn bywyd.

6.1 Pryderon plant a phobl ifanc

- Mae materion ariannol yn pryderu llawer o bobl ifanc a'u teuluoedd ac felly eisiau mwy o gymorth i ddeall materion ariannol a budd-daliadau.
- Prinder cyfleoedd gwaith, gwaith o safon, a phrisiau tai uchel hefyd yn rhai pethau sy'n poeni pobl ifanc a bod nifer yn ystyried o ddifrif pa gyrsiau fydd yn sicrhau'r cyfleoedd gorau posib ym myd gwaith.
- Rhai pobl ifanc yn teimlo eu bod yn colli allan oherwydd diffyg cysylltiad *Broadband* mewn rhai ardaloedd gwledig.

Gwawr Davies
Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau
Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Medi 2010

6.2 Pryderon am wasanaethau

- Pobl ifanc GAP wedi datgan pryderon am wasanaeth yn ystod yr oed trosglwyddo ac yno gan wasanaethau oedolion.
- Diffyg cysondeb ar draws y Sir, o ran gwasanaethau ac adnoddau sydd ar gael er enghraifft mewn Canolfannau Hamdden a chlybiau Ieuenctid [rhai esiamplau gwych iawn o adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc ac ardaloedd eraill lle mae yna ddiffyg arian a chyfleoedd]

Gweithrediad

- Gwasanaethau Plant ac oedolion yn gweithio tuag at gyfarch y materion gweithredol gall ddeillio o achosion unigol ac yn cyfarfod gyda pobl ifanc Clebran i drafod y mater ymhellach.

Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i gael y cychwyn gorau mewn bywyd ac i dderbyn gofal da er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n llawn yn gorfforol ac yn emosiynol.

7.1 Datblygu'r teulu cyfan

- Teimlai plant ysgolion cynradd yr hoffent gael mwy o bethau i'r teulu wneud gyda'i gilydd.
- Mae diffyg mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn broblemau ar gyfer y teulu cyfan yn enwedig cost trafnidiaeth.
- Pobl ifanc mewn gofal yn gwerthfawrogi gofal gofalwyr maeth ond eisiau dysgu mwy am sgiliau rhiantu.

Gweithrediad

- Adborth wedi ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Maethu i ddarparu mwy o sgiliau rhiantu i'r pobl ifanc

Gwawr Davies
Swyddog Strategol Cyfranogi a Hawliau
Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Medi 2010